# Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur a gwasanaeth: Polisi a Pherfformiad
Dyddiad ei gymeradwyo gan y Cabinet:
Asesiad Effaith Integredig: Oes
Dyddiad cyhoeddi: 31/3/20
Dyddiad Adolygu'r Polisi: 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y Cyngor, cliciwch http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/cynllun-strategol-cydraddoldeb-amcanion/

Os oes angen copi caled o'r ddogfen hon arnoch, neu gopi ohoni mewn gwahanol ffurf, er enghraifft print mawr, fersiwn sain, ffurf geiriau ar gyfer darllenwyr sgrin ac ati, cysylltwch â'r:

Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb
Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 OPA

Ebost: clic@ceredigion.gov.uk

## Rhagair

Mae anghenion a materion sy’n gysylltiedig â chydraddoldeb fel petaent yn y penawdau newyddion bron bob dydd. Gellid dweud nad yw Cydraddoldeb erioed wedi bod yn fwy perthnasol na phwysig i ni yn ein cymunedau a'r gwasanaethau a ddarparwn.

Mae Cydraddoldeb wrth wraidd y gwasanaethau a ddarparwn a'n gwerthoedd yma yng Nghyngor Sir Ceredigion. Dyna pam bod Cydraddoldeb yn thema drawsbynciol yn ein Strategaeth Gorfforaethol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn gymwys ar draws pob adran o Gyngor Sir Ceredigion a phob un o'r gwasanaethau a ddarparwn. Rydym hefyd yn ystyried yn ofalus anghenion a materion Cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau, ac rydym wedi corffori Cydraddoldeb yn ein Hasesiadau Effaith Integredig.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb hwn wedi cael ei lunio ar sail tair prif ffynhonnell dylanwad.

1. Rydym wedi cynnal arolwg cyhoeddus ar anghenion a materion Cydraddoldeb, wedi'i ddilyn gan ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft.

2. Rydym wedi casglu tystiolaeth o adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *'Ydy Cymru'n Decach 2018?'*

3. Rydym wedi parhau â'r gwaith o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol.

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion rôl allweddol i'w chwarae o ran prif ffrydio Cydraddoldeb yn y gwasanaethau a ddarparwn, yn y cymunedau a wasanaethwn a chyda'r bobl a gyflogwn. Byddwn yn ceisio cyflawni hyn trwy weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn. Byddwn yn parhau i roi Cydraddoldeb wrth wraidd yr hyn a wnawn.

| | |
|---|---|
| Eifion Evans | Y Cyng. Ellen ap Gwynn |
| Prif Weithredwr | Arweinydd a Hyrwyddwr Cydraddoldeb |
|  |  |

**Cynnwys:**


| | |
|---|---|
| 1. Rhagymadrodd | Tudalennau 3 i 4 |
| 2. Ceredigion: Pwy ydym ni, ble rydym ni'n byw a beth mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei wneud | Tudalennau 5 i 7 |
| 3. Deall ein Dyletswyddau Cydraddoldeb | Tudalennau 8 i 11 |
| 4. Datblygu a gosod ein Hamcanion Cydraddoldeb | Tudalennau 12 i 13 |
| 5. Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Sir Ceredigion<br>Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol<br>Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn<br>Ymgysylltu a Chyfranogi<br>Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau<br>Addysg Deg a Chynhwysol | Tudalennau 14 i 27 |
| 6. Ein Gwaith Cydraddoldeb yng Ngheredigion | Tudalennau 28 i 31 |
| Tabl 1: Gweithredoedd sy'n cefnogi ein Hamcanion o ran Cydraddoldeb a Nodweddion Gwarchodedig | Atodiad 1 |
| Cynllun Gweithredu | Atodiad 2 |

# 1. Rhagymadrodd

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn amlinellu sut y byddwn ni Gyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod y camau a gymerwn yn deg i bawb. Mae cael eich trin yn deg a chyda pharch yn berthnasol i bob un ohonom ac i'n teuluoedd a'n ffrindiau. Mae'r cynllun hwn ar gyfer 2020-24 ac yn adeiladu ar ein cynlluniau blaenorol ar gyfer 2012-16 a 2016-2020.

Cafodd y cynllun ei ysgrifennu ar ôl ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol fel rhan o bartneriaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda chyrff gwasanaeth cyhoeddus eraill yn ystod haf 2019. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd â rhanddeiliaid, er enghraifft, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda Fforwm Anabledd Ceredigion. Cynhaliwyd arolwg ar y cyd hefyd i gasglu barn pobl o wahanol gefndiroedd am eu profiad mewn chwe maes o bwys:

- Addysg
- Gwaith
- Safon Byw
- Iechyd
- Cyfiawnder a Diogelwch personol
- Cyfranogi

Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch y cynllun drafft a grëwyd yn ystod Rhagfyr ac Ionawr 2019/20. Roedd yn cynnwys fersiwn hawdd ei deall, fersiwn i blant a phobl ifanc a fersiwn lawn o'r cynllun drafft. Roedd 93% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r pum amcan cydraddoldeb drafft. Cafodd y fersiwn derfynol o *Ceredigion Deg a Chyfartal 2020-24 – Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion* ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 17/3/2020.

Mae'r cynllun yn cwmpasu'r meysydd canlynol:


- Cydraddoldeb
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, yn arbennig, y nodau llesiant *'Cymru sy'n fwy cyfartal', 'Cymru o gymunedau cydlynus'* a *'Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.'*

Mae rhan gyntaf y cynllun yn rhoi gwybodaeth gefndir am bobl Ceredigion yn ogystal ag amlinelliad o'r hyn a wnawn fel Cyngor Sir. Ceir trosolwg o gydraddoldeb a Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd. Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein pum Amcan Cydraddoldeb. Disgrifiwn sut y byddwn yn gosod camau gweithredu ac yn cymryd camau i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb. Yn olaf, mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys manylion ynghylch sut y byddwn yn monitro ac yn adolygu cynnydd blynyddol a chyhoeddi gwybodaeth. Mae Atodiad 2 yn cynnwys ein cynllun

gweithredu sy'n esbonio sut y byddwn yn rhoi ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith.

1. **Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol**
   Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff sydd wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion cysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
2. **Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn**
   Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.
3. **Ymgysylltu a Chyfranogi**
   Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.
4. **Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau**
   Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.
5. **Addysg Deg a Chynhwysol**
   Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.

## 2. Ceredigion: Pwy ydym ni, ble rydym ni'n byw a beth mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei wneud




Mae gan Geredigion boblogaeth o 73,000. Aberystwyth yw'r dref fwyaf gyda phoblogaeth o oddeutu 20,000, wedi'i dilyn gan Aberteifi 4,400 a Llanbedr Pont Steffan 3,000. Mae Aberaeron, Llandysul a Thregaron yn drefi llai. Mae 62% o'r boblogaeth yn byw mewn pentrefi neu aneddiadau gwledig gwasgaredig. Gyda 42 o bobl fesul cilometr sgwâr, mae gan Geredigion y dwysedd poblogaeth isaf ond un yng Nghymru. Er eu bod yn wledig eu natur yn bennaf, mae'r trefi yn ganolfannau pwysig i'r boblogaeth ehangach. Mae gan Geredigion nifer o gyrff o bwysigrwydd rhyngwladol hefyd, er enghraifft, Prifysgol Aberystwyth, Campws Llanbedr Pont Steffan Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Pe byddai modd gywasgu poblogaeth Ceredigion i un pentref gydag oddeutu 100 o bobl byddai:

50 o wrywod a 50 o fenywod (Cyfrifiad 2011)

15 o blant o dan 16 oed (Cyfrifiad 2011)

63 o bobl oedran gweithio (Cyfrifiad 2011)

23 o bobl oedran pensiynadwy (Cyfrifiad 2011)

47 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011)

97 o bobl o gefndir gwyn a 3 o gefndir heb fod yn wyn (Cyfrifiad 2011)

5-7 o bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (Stonewall Cymru)

21 o bobl â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus (Cyfrifiad 2011)

11 o bobl sy'n darparu gofal di-dâl (Cyfrifiad 2011)

58 o bobl sy'n Gristnogion, 2 unigolyn sy'n addoli crefydd arall a 31 o bobl heb unrhyw grefydd (9 yn dewis peidio â nodi crefydd) (Cyfrifiad 2011)

16 o aelwydydd yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn a 3 aelwyd yn ennill dros £80,000 y flwyddyn (CACI Pay-check 2013)

14 o bobl yn hawlio budd-daliadau allweddol yr Adran Gwaith a Phensiynau (ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau)

5 yn byw mewn aelwydydd unig riant (Cyfrifiad 2011)

Pan fyddwn yn ystyried y ddelwedd uchod o bobl yng Ngheredigion yn byw gyda'i gilydd mewn pentref o 100 o bobl, gallwn werthfawrogi amrywiaeth ein poblogaeth a'r angen i gyd-dynnu â'n gilydd gyda pharch ac urddas. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod grwpiau o bobl ymylol neu'r rhai na chlywir ryw lawer amdanynt yn cymryd rhan ac yn cael mynediad i wasanaethau.

## Cyngor Sir Ceredigion

### Gwleidyddol

Mae Ceredigion wedi'i ffurfio o 40 o wardiau etholiadol a gynrychiolir gan 42 o aelodau (cynghorwyr) sy'n cael eu hethol gan bobl Ceredigion bob 5 mlynedd. Mae Ceredigion wedi mabwysiadu'r dull llywodraethu "Arweinydd a Chabinet". Mae'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a 7 Aelod o'r Cabinet gydag amrywiaeth o bortffolios. Ceir pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig hefyd.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflogi 3,426 o aelodau staff neu'r hyn sy'n cyfateb i 2,401 o aelodau staff amser llawn ar draws 12 o feysydd gwasanaeth, sef:

- Ysgolion
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu
- Cyllid a Chaffael
- Gwasanaethau Democrataidd
- Pobl a Threfniadaeth
- Porth Cymorth Cynnar – llesiant cymunedol a dysgu
- Porth Cynnal – gwasanaethau arbenigol gydol oed
- Porth Ceredigion – gwasanaethau ymyrraeth wedi'u targedu
- Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
- Yr Economi ac Adfywio
- Cyswllt Cwsmeriaid
- Polisi a Pherfformiad

O'r rhestr uchod gellir gweld bod angen i Gyngor Sir Ceredigion gyflawni ei gyfrifoldebau cydraddoldeb ar draws ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys darparu gwasanaeth i bobl agored i niwed. Dyna pam bod cydraddoldeb yn thema drawsbynciol yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2017-22. Mae ein Strategaeth Gorfforaethol yn datgan bod cydraddoldeb yn golygu '*sicrhau bod cyfle cyfartal gan bawb i gyfrannu at wneud Ceredigion yn lle gwell i fyw, gweithio a mwynhau. Rydym yn ymrwymedig i drin pob dinesydd â pharch, a darparu gwasanaethau a chynnig cyfleoedd cyflogaeth sy'n ymateb i anghenion amrywiol pob'.* Byddwn yn mabwysiadu hyn fel **Datganiad Cydraddoldeb Cyngor Sir Ceredigion**.

## 3. Deall ein Dyletswyddau Cydraddoldeb

**Diffiniad o Gydraddoldeb**

Gall y term 'cydraddoldeb' olygu gwahanol bethau i wahanol bobl, felly er eglurder, pan ddefnyddir y term hwn bydd y Cyngor yn dilyn y diffiniad a roddwyd gan yr Adolygiad o Gydraddoldeb, "Mae cymdeithas gyfartal yn diogelu ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, rhyddid a'r cyfle i fyw yn y ffordd y mae pobl yn ei gwerthfawrogi ac y byddent yn ei dewis, fel bod modd i bawb ffynnu. Mae cymdeithas gyfartal yn cydnabod gwahanol anghenion, sefyllfaoedd a nodau pobl, gan waredu'r rhwystrau sy'n cyfyngu'r hyn y gall pobl ei wneud a'r hyn y gall pobl fod."

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd ac yn disodli'r cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol o fewn un Ddeddf. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r Ddeddf yn diogelu hawliau unigolion ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys rhoi **dyletswydd gyffredinol (dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus)** ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus i roi 'sylw dyledus' i'r canlynol:

- **Dileu gwahaniaethu'n anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth** ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- **Hybu cyfle cyfartal** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- **Meithrin perthnasoedd da** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu trwy fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth lunio polisïau a darparu gwasanaethau, a'u bod yn cael eu hadolygu'n gyson. Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau gwell i bawb.

Mae'r Ddeddf yn esbonio bod rhoi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb yn cynnwys:

- Dileu neu leihau effaith yr anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i ateb anghenion pobl o grwpiau nodweddion gwarchodedig os ydynt yn wahanol i rai pobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill os yw'r nifer sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn disgrifio meithrin perthnasoedd da sy'n mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a

phobl nad ydynt yn ei rhannu. Gallai cyflawni'r ddyletswydd hon olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, ar yr amod nad yw hyn yn mynd yn groes i ddarpariaethau eraill y Ddeddf.

**Pwy sy'n cael eu gwarchod? Y 'nodweddion gwarchodedig'**

Yn dechnegol caiff pawb eu diogelu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, fodd bynnag, mae dyletswyddau cyffredinol a phenodol y sector cyhoeddus yn cyfeirio at bobl sydd â 'nodweddion gwarchodedig' arbennig. Lluniwyd y gyfraith i warchod pobl y gwahaniaethir yn eu herbyn mewn perthynas â'r nodweddion hyn. Y nodweddion gwarchodedig yw -

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred
- Priodas neu bartneriaeth sifil, ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

O dan y Ddeddf, mae'n anghyfreithlon i **wahaniaethu, aflonyddu** neu **erlid** rhywun oherwydd bod ganddynt, neu yr ystyrir bod ganddynt, "nodwedd warchodedig" neu eu bod yn gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd warchodedig.

**Pa fath o ymddygiad sy'n anghyfreithlon?**

1. **Gwahaniaethu**

Mae yna sawl math o wahaniaethu.

**Gwahaniaethu uniongyrchol:** Mae hyn yn golygu trin rhywun yn llai ffafriol na rhywun arall oherwydd nodwedd warchodedig.

**Gwahaniaethu uniongyrchol trwy ganfyddiad:** Mae hyn yn golygu trin rhywun yn llai ffafriol na rhywun arall oherwydd eich bod yn meddwl ar gam fod nodwedd warchodedig ganddo neu ganddi.

**Gwahaniaethu anuniongyrchol:** Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn golygu rhoi rheol neu bolisi yn ei le neu ffordd o wneud pethau sy'n cael effaith waeth ar rywun sydd â nodwedd warchodedig na rhywun heb nodwedd o'r fath, pan na ellir cyfiawnhau hyn yn wrthrychol.

**Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd:** Mae hyn yn golygu trin rhywun anabl yn anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig ag anabledd pan na ellir cyfiawnhau hyn

yn wrthrychol. Bydd hyn yn gymwys dim ond os ydych yn gwybod neu mae'n rhesymol i ddisgwyl eich bod yn gwybod bod y person yn anabl. Nid oes rhaid i fusnes wybod bod rhywun yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o "berson anabl" dim ond oherwydd bod nam ganddo neu ganddi sy'n debygol o fodloni'r diffiniad.

2. **Aflonyddu**

Mae aflonyddu yn golygu ymddygiad digroeso sy'n gysylltiedig â nodwedd warchodedig gyda'r diben neu'r effaith o amharu ar urddas rhywun, neu sy'n creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus.

3. **Erledigaeth**

Mae erledigaeth yn golygu trin rhywun yn anffafriol oherwydd ei fod wedi gweithredu mewn rhyw ffordd sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Cydraddoldeb, er enghraifft, wedi gwneud cwyn o dan y Ddeddf neu wedi cefnogi rhywun sy'n gwneud hynny, megis ymddangos fel tyst.

## Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Cyflwynwyd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2010, gan Lywodraeth Cymru ac amlinellwyd y gofynion canlynol i Gymru:

- Amcanion Cydraddoldeb
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu Effaith
- Gwybodaeth Cydraddoldeb
- Gwybodaeth Cyflogwyr
- Gwahaniaeth mewn Cyflog
- Hyfforddiant Staff
- Caffael
- Adroddiad Blynyddol
- Cyhoeddi
- Adolygu
- Hygyrchedd

I ddarllen y ddeddfwriaeth yn llawn cliciwch
https://www.equalityhumanrights.com/cy/equality-act/deddf-cydraddoldeb-2010

## Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cychwyn yn y gwanwyn, 2020. Mae hyn yn golygu y bydd angen i Gyngor Sir Ceredigion, fel corff cyhoeddus rhestredig, ystyried sut y gallai ei benderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn fras, mae'n ddyletswydd i gynnal asesiad o

effaith tlodi. Byddwn yn rhoi sylw i'r canllawiau pan fyddant yn cael eu cyhoeddi ac yn adolygu'r broses sydd gennym o ran Asesiadau Effaith Integredig.

**Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol Ysgolion**

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i ysgolion ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Mae Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol ysgolion yn wahanol i rai'r Cyngor. Mae'r awdurdodau sy'n ffurfio rhan o Gonsortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru wedi cydweithio, law yn llaw â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ddatblygu dogfennau canllaw i gynorthwyo ysgolion a llywodraethwyr.

**Ymrwymiad i'r Gymraeg**

Nid yw hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb, yn lle hynny mae wedi'i nodi ym Mesur y Gymraeg 2011. Fodd bynnag, yng Ngheredigion mae'n bwysig cynnwys y Gymraeg ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchodedig ehangach er mwyn hyrwyddo dull cyfannol at ystyried anghenion pob cymuned wrth lunio a darparu gwasanaethau. Mae Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – *'Cymru fwy cyfartal'* a *'Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.* At hynny mae cydraddoldeb a dwyieithrwydd yn themâu trawsbynciol yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2017-22.

Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn rhoi rhwymedigaeth ar y sector cyhoeddus i gydymffurfio â chyfres o 'safonau' ac i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Caiff Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ei gadw fel dogfen ar wahân a bydd yn destun craffu blynyddol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn cael eu cyflawni. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn rheoleiddio gweithrediad y mesur hwn a'r safonau cysylltiedig.

## 4. Datblygu a gosod ein Hamcanion Cydraddoldeb

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion adolygu ei Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-24. Wrth osod ein hamcanion dilynwyd tair prif linyn o dystiolaeth.

1. **Arolwg o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, haf 2019 – Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y Cyd**
   Daeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru at ei gilydd i geisio barn y cyhoedd ynghylch cydraddoldeb. Roedd hyn wedi cynnwys arolwg a digwyddiadau ymgysylltu. Casglodd yr arolwg farnau ynghylch sut y mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn profi chwe phrif faes bywyd, sef:
   Addysg
   Gwaith
   Safonau Byw
   Iechyd
   Cyfiawnder a Diogelwch Personol
   Cyfranogiad

   Roedd y bartneriaeth yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys, Heddlu Dyfed Powys, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

2. **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *'Ydy Cymru'n Decach 2018?'***
   Mae'r adroddiad yn ceisio ateb y cwestiwn, *'Ydy Cymru'n Decach?'.* Mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at bump prif ganfyddiad, sef:
   Mae camau i'r cyfeiriad cywir wedi cael eu cymryd.
   Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn bodoli.
   Mae pobl anabl yn fwy ar ei hôl hi.
   Ceir heriau i ddiogelwch a dilyniant gyrfa menywod.
   Mae anghydraddoldeb hil yn parhau.
   I weld yr adroddiad cliciwch
   https://www.equalityhumanrights.com/cy/publication-download/yw-cymru%E2%80%99n-decach-2018

3. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion 2016-2020**
   Roedd y cynllun yn cwmpasu'r amcanion isod:
   Cyflogwr Cyfle Cyfartal
   Meithrin Perthnasoedd Da

Ymgysylltu a Chyfranogi
Addysg Deg a Chynhwysol
Urddas a Pharch
Rydym wedi adrodd yn flynyddol hefyd ar ein cynnydd o ran bodloni'r amcanion hyn. I weld y cynllun a'r adroddiadau blynyddol cliciwch http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/cynllun-strategol-cydraddoldeb-amcanion/

Gan ystyried y dystiolaeth uchod, ei phwyso a'i mesur ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall, rydym wedi gosod yr Amcanion Cydraddoldeb canlynol ar gyfer 2020-24.

1. **Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol**
   Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff sydd wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion cysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
2. **Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn**
   Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.
3. **Ymgysylltu a Chyfranogi**
   Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.
4. **Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau**
   Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.
5. **Addysg Deg a Chynhwysol**
   Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.

Nid ydym wedi sefydlu amcan ar gyfer pob nodwedd warchodedig ond yn hytrach gosod amcanion yn seiliedig ar yr anghenion a'r materion y bydd pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu. Os yw pobl â nodwedd warchodedig benodol o dan anfantais arbennig rydym wedi cofnodi hyn yn yr wybodaeth gefndir isod ar gyfer pob amcan. Rydym hefyd wedi cynnwys camau gweithredu penodol yn ein cynllun gweithredu i roi sylw i'r anfanteision anghymesur neu benodol a wynebir gan bobl â nodweddion gwarchodedig unigol. Gweler Tabl 1 yn Atodiad 1 i weld sut mae ein camau gweithredu yn ymwneud â'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r Nodweddion Gwarchodedig.

# 5. Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Sir Ceredigion

## Amcan Cydraddoldeb 1: Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol

**Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff sydd wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion cysylltiedig â chyflogaeth. Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.**

### Arolwg Cydraddoldeb Canolbarth a Gorllewin Cymru 2019

*'Oni bai eich bod yn gwirfoddoli, mae'n anodd cael gwaith gan fod rhai pobl yn ystyried anableddau dysgu fel methu â gwneud dim byd. Nid oes ganddyn nhw amser i ddarganfod sut bobl ydym ni a'n bod yn gallu gwneud rhai pethau'n dda,'* preswylydd Ceredigion.

Y pedwar grŵp uchaf yn yr arolwg yr ystyrir eu bod yn cael profiadau gwaeth o **waith** na'r boblogaeth gyfan yw –

1. Pobl Anabl
2. Pobl Hŷn
3. Menywod beichiog neu fenywod sydd newydd roi genedigaeth
4. Pobl Dduon neu Leiafrifoedd Ethnig

Barnwyd mai pobl anabl, pobl hŷn, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, benywod beichiog neu fenywod sydd newydd roi enedigaeth sy'n cael y profiadau gwaethaf o gyflogaeth. Dangosodd yr arolwg fod pobl drawsrywiol, pobl iau neu fenywod hefyd yn cael profiadau negyddol o waith. Barnwyd bod siaradwyr Cymraeg neu wrywod yn cael profiadau gwell o waith.

### Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - *'Ydy Cymru'n Decach 2018?'* – Prif Gasgliadau

- Mae cyflogaeth ansicr ddwywaith mor uchel ar gyfartaledd i'r rhai 16-24 oed.
- Mae'r gyfradd cyflogaeth i bobl anabl yn llai na hanner cyfradd cyflogaeth pobl nad ydynt yn anabl.
- Mae saith o bob deg mam wedi cael profiad negyddol neu wahaniaethol yn ystod beichiogrwydd, mamolaeth neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae aflonyddu rhywiol yn parhau'n gyffredin yn y gweithle.
- Mae prentisiaethau yn parhau wedi'u gwahaniaethu'n gryf yn ôl rhyw heb gynrychiolaeth ddigonol gan bobl lleiafrifoedd ethnig ac anabl.
- Mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn bodoli yng Nghymru.

### Beth ydym yn dymuno ei gyflawni?

- Rydym am fod yn gyflogwr teg a phrif ffrydio cydraddoldeb yn y gweithle.
- Ein nod yw cael gweithlu amrywiol a symud rhwystrau i gyflogaeth.

- Rydym am i'n staff fabwysiadu egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg 2011.

**Sut byddwn yn gwneud hyn?**

- Byddwn yn parhau i fonitro a chau'r gwahaniaeth yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Bwlch Cyflog yn y Gweithlu blynyddol.
- Byddwn yn parhau i gasglu data am sgiliau cydraddoldeb a Chymraeg y gweithlu gan staff newydd a data gwirfoddol gan staff presennol.
- Byddwn yn darparu hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth ar gydraddoldeb a'r Gymraeg i staff.
- Byddwn yn parhau i ddilyn y Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd (sy'n croesawu ceisiadau am swyddi gan bobl anabl ac yn ymrwymo i wneud addasiadau yn y gweithle).
- Byddwn yn cefnogi gweithwyr sy'n feichiog neu sydd newydd roi genedigaeth trwy ein polisïau cyflogaeth yn unol â'r chwe maes gweithredu o dan yr adroddiad *Gwahaniaethu yn erbyn beichiogrwydd a mamolaeth yn y gweithlu: argymhellion ar gyfer newid*.
- Byddwn yn cynnig, lle y bo'n briodol, gweithio'n hyblyg a rhan-amser i gefnogi rhieni a gofalwyr. Byddwn yn diwygio ein polisïau ar weithio'n hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Byddwn yn gweithio tuag at leihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau a diffyg cynrychiolaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau, gan gynnwys gweithio gyda'n contractwyr i gynnwys buddion cymunedol fel elfen graidd ym mhob contract caffael perthnasol y Cyngor.
- Byddwn yn parhau i weithredu ein Polisi Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i ddilyn Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol a Thryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi, er enghraifft, gwarchod yn erbyn contractau cyflogaeth ansicr a sicrhau hawliau gweithwyr.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo?**

- Byddwn yn adrodd ar gynnydd ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n cynllun gweithredu bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Byddwn yn casglu gwybodaeth am yr hyfforddiant cydraddoldeb a'r Gymraeg sy'n cael ei gwblhau gan ein staff a'i gynnwys yn Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Byddwn yn casglu gwybodaeth ac yn llunio Adroddiad Bwlch Cyflog yn y Gweithlu blynyddol ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu blynyddol.
- Byddwn yn dadansoddi ac yn monitro sgiliau iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i gyrraedd y lefel ofynnol o hyfforddiant ar gyfer eu swydd.
- Byddwn yn cofnodi'r nifer o gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant newydd a grëir ar ran y bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

**Canlyniadau Disgwyliedig**

- Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda gweithlu amrywiol ac yn cau'r bwlch cyfog rhwng y rhywiau.
- Byddwn yn trin pob un o'n gweithwyr yn deg.
- Mae gennym staff sy'n deall cydraddoldeb a sut i ddileu rhwystrau.

## Amcan Cydraddoldeb 2: Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn

**Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.**

### Arolwg Cydraddoldeb Canolbarth a Gorllewin Cymru 2019

*'Mae fy nhref yn wych,'* preswylydd Ceredigion.

*'Mae gwahaniaethau yn aml yn arwain at ofn ac anwybodaeth am eraill gan achosi anghytgord,'* preswylydd Ceredigion.

Y pedwar grŵp uchaf yn yr arolwg yr ystyrir eu bod yn cael profiadau gwaeth o **gyd-dynnu'n dda yn y gymuned** na'r boblogaeth gyfan yw –

1. Pobl Anabl
2. Pobl Drawsrywiol
3. Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
4. Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol

Barnwyd mai pobl anabl, pobl drawsrywiol, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu bobl lesbiaidd hoyw a deurywiol sy'n cael y profiadau gwaethaf o gyd-dynnu'n dda yn y gymuned. Barnwyd mai siaradwyr Cymraeg sy'n cael y profiad gorau o gyd-dynnu'n dda mewn cymuned. Barnwyd bod y nodweddion gwarchodedig eraill yn cael profiad niwtral ar y cyfan o gyd-dynnu'n dda.

### Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *'Ydy Cymru'n Decach 2018?'* – Prif Gasgliadau

- Mae unigrwydd, byw mewn man anghysbell a llai o ymdeimlad o berthyn yn broblemau mawr sy'n wynebu pobl hŷn, pobl anabl, gofalwyr, rhieni newydd, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.
- Mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd wedi cynyddu ar draws pob nodwedd warchodedig. Gwelwyd cynnydd yn nifer y troseddau casineb yn ymwneud â hil a chrefydd yn dilyn digwyddiadau megis ymosodiadau terfysgaeth a refferendwm yr Undeb Ewropeaidd.
- Bu cynnydd mawr yn nifer y troseddau trais rhywiol a thrais domestig.

### Beth ydym yn dymuno ei gyflawni?

- Fel arweinydd cymunedol rydym am helpu cymunedau i adeiladu cydlyniant a chydnerthedd cymunedol.
- Ein nod yw helpu cymunedau i adeiladu pontydd rhwng grwpiau gwahanol o bobl, gan gynnwys rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.
- Rydym am helpu cymunedau i adeiladu cydnerthedd a mynd i'r afael â rhagfarn, er enghraifft trechu troseddau casineb.

**Sut byddwn yn gwneud hyn?**

- Byddwn yn gweithredu'r Cynllun Cyflenwi Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol.
- Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chyfeirio dioddefwyr posibl at wasanaethau adrodd a chefnogi.
- Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith i gynyddu adroddiadau am drais domestig i'r gwasanaeth Goleudy (Cymorth i Ddioddefwyr),
- Byddwn yn parhau i hyfforddi ein staff ar godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a thrais domestig.
- Byddwn yn monitro ac yn ymateb i densiynau cydlyniant cymunedol sy'n gysylltiedig â phroses Brexit.
- Byddwn yn cyfeirio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yng Ngheredigion at Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd y Swyddfa Gartref a darparu'r lefel briodol o gymorth gan yr awdurdod lleol.
- Byddwn yn parhau i weithredu'r ymgyrch ymwybyddiaeth cyhoeddus blynyddol yn y cyfryngau ar anghenion a materion cydraddoldeb. Gallai enghreifftiau gynnwys Diwrnod Rhyngwladol Menywod, Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, a'r Diwrnod Gwisgwch Goch / Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo?**

- Byddwn yn adrodd ar gynnydd wrth gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n cynllun gweithredu bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Byddwn yn monitro dangosyddion cydlyniant ar gyfer Ceredigion o'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer Cymru.
- Byddwn yn monitro lefelau adroddiadau troseddau casineb gan gynnwys y cynnydd a welir oherwydd Brexit neu ddigwyddiadau mawr. Byddwn hefyd yn monitro lefelau adroddiadau cam-drin domestig.
- Nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar gyfer trechu troseddau casineb a cham-drin domestig.
- Byddwn yn adrodd ar nifer yr ymgyrchoedd cysylltiedig â chydraddoldeb yn y cyfryngau.
- Nifer y dinasyddion o'r Undeb Ewropeaidd sy'n byw yng Ngheredigion ac yn gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

**Canlyniadau Disgwyliedig**

- Rydym yn helpu cymunedau sydd â chydlynant cymunedol da ac sy'n gydnerth i wrthsefyll bygythiadau megis troseddau casineb, cam-drin domestig neu densiynau cymunedol.
- Mae gan bobl ymdeimlad o berthyn ac yn cyd-dynnu'n dda â phobl o wahanol gefndiroedd yn eu cymunedau.
- Mae dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yng Ngheredigion yn ymwybodol o'u hawliau a sut i sicrhau statws preswylydd sefydlog.
- Mae cymunedau yng Ngheredigion yn gydnerth i wrthsefyll y tensiynau a allai godi gyda senarios gwahanol cysylltiedig â Brexit.

## Amcan Cydraddoldeb 3: Ymgysylltu a Chyfranogi

**Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.**

### Arolwg Cydraddoldeb Canolbarth a Gorllewin Cymru 2019

*'Rwy'n aelod o Ein Llais Ein Dewis yng Ngheredigion. Mae'n bwysig iawn oherwydd dwi'n teimlo'n teimlo'n flin os nad yw pobl yn gwrando'.*

Y tri grŵp uchaf yn yr arolwg yr ystyrir eu bod yn cael profiadau gwaeth o **ddylanwadau ar benderfyniadau** na'r boblogaeth gyfan yw –

1. Pobl Iau
2. Pobl Anabl
3. Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Barnwyd bod pobl iau, pobl anabl neu bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael profiadau gwaeth o ddylanwadu ar benderfyniadau. Barnwyd mai dim ond pobl sy'n wryw neu bobl sy'n siarad Cymraeg sy'n cael profiadau gwell o ddylanwadu ar benderfyniadau na'r boblogaeth gyfan.

### Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *'Ydy Cymru'n Decach 2018?' – Prif Gasgliadau*

- Mae menywod yn parhau heb eu cynrychioli'n ddigonol ymysg ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol a phenodiadau cyhoeddus. Ceir data cyfyngedig ar gynrychiolaeth pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig.

### Beth ydym yn dymuno ei gyflawni?

- Rydym am ymgysylltu'n effeithiol â phobl Ceredigion gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn defnyddio'r dulliau ymgysylltu gorau sy'n briodol yn ôl yr amgylchiadau penodol.
- Rydym am sicrhau bod pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau am wasanaethau a pholisïau Cyngor Sir Ceredigion.
- Rydym am helpu pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd cyhoeddus.

### Sut byddwn yn gwneud hyn?

- Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion, gan gynnwys y rhai sy'n fwyaf ymylol (pobl ifanc, pobl anabl a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig).
- Byddwn yn adolygu ein Polisi Ymgysylltu a'i ddiwygio'n helaeth. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, yn dibynnu ar y sefyllfa, hysbysu, ymgynghori, cynnwys, cydweithredu a grymuso
- Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ac yn rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ein proses gwneud penderfyniadau.

- Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaeth â'n Cynghorau Ysgol a Fforymau Ieuenctid.
- Byddwn yn parhau i gefnogi Fforwm Anabledd Ceredigion ac yn mabwysiadu egwyddorion Siarter Anableddau Dysgu y *Dream Team.*
- Byddwn yn cefnogi'r rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol, yn arbennig i fenywod, pobl anabl neu bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Byddwn yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc 16 ac 17 oed os yw'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru.
- Byddwn yn adolygu ac yn diwygio ein proses Asesu Effaith Integredig.

**<u>Sut byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo?</u>**

- Byddwn yn adrodd ar gynnydd wrth gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n cynllun gweithredu bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Byddwn yn monitro ein gweithgareddau ymgysylltu.
- Byddwn yn monitro ansawdd ac amlder Asesiadau Effaith Integredig wedi'u cwblhau.
- Nifer cynyddol o grwpiau cynrychioliadol wedi'u hymgysylltu â fforymau ac yn eu mynychu (er enghraifft Fforwm Anabledd Ceredigion).
- Nifer cynyddol o bobl o grwpiau ymylol yn cymryd rhan mewn etholiadau lleol ac yn cael penodiadau cyhoeddus (menywod, pobl anabl a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig).
- Byddwn yn cynnwys pobl ifanc ac yn sicrhau eu bod yn dylanwadu ar benderfyniadau.

**<u>Canlyniadau Disgwyliedig</u>**

- Bydd pobl Ceredigion yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau, gan gynnwys pobl ifanc, pobl anabl a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Mae ystod eang o bobl yn cymryd rhan mewn etholiadau lleol ac yn cael penodiadau cyhoeddus gan gynnwys menywod, pobl anabl a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

## Amcan Cydraddoldeb 4: Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau

**Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.**

### Arolwg Cydraddoldeb Canolbarth a Gorllewin Cymru 2019

*'Mae pobl hŷn yn tueddu o fod angen mwy o gymorth, gyda demograffig sy'n heneiddio, ac mae toriadau i wasanaethau cymorth yn gwneud mynediad yn fwy anodd i bobl hŷn.'* preswylydd Ceredigion..

Y pum grŵp uchaf yn yr arolwg yr ystyrir eu bod yn cael profiadau gwaeth o gael mynediad i **wasanaethau gofal cymdeithasol** na'r boblogaeth gyfan yw –

1. Pobl Anabl
2. Pobl Hŷn
3. Pobl Iau
4. Pobl Drawsrywiol
5. Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Barnwyd bod grwpiau eraill yn cael profiad niwtral neu brofiad ychydig yn negyddol o gael mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol.

*'Ni all pobl ifanc sengl gael hyd i unrhyw dai fforddiadwy sy'n ddiogel ac yn hirdymor – gall pobl anabl ei chael hi'n anodd i gael hyd i lety addas',* preswylydd Ceredigion.

Y pedwar grŵp uchaf yn yr arolwg yr ystyrir eu bod yn cael profiadau gwaeth o gael mynediad i **dai** na'r boblogaeth gyfan yw –

1. Pobl Iau
2. Pobl Anabl
3. Pobl Sengl
4. Pobl Hŷn

Barnwyd mai pobl ifanc sy'n cael y profiadau gwaethaf o dai, gan adlewyrchu anhawster pobl ifanc i gael hyd i dai fforddiadwy. Barnwyd mai pobl anabl, pobl sengl a phobl hŷn sy'n cael profiadau gwaeth o dai, a'r rheswm posibl am hyn yw diffyg eiddo hygyrch o faint addas. Barnwyd bod grwpiau eraill yn cael profiad niwtral o dai ar y cyfan.

*'Rwy'n hwylusydd ar gyfer grŵp hunan-eirioli lleol yma yng Ngheredigion – a'r broblem fwyaf sy'n codi ar gyfer ein haelodau yw pa mor wael yw trafnidiaeth gyhoeddus.'*

Barnwyd bod pobl anabl yn cael profiad llawr gwaeth o **drafnidiaeth**, gyda phob un o'r grwpiau eraill yn cael profiad niwtral mwy neu lai.

*'Mae'r henoed a'r rhai sydd ag anableddau dysgu yn cael anhawster gydag offer digidol,'* preswylydd Ceredigion.

Y tri grŵp uchaf yn yr arolwg yr ystyrir eu bod yn cael profiadau gwaeth o **gael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau digidol** na'r boblogaeth gyfan yw –

1. Pobl Hŷn
2. Pobl Anabl
3. Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Barnwyd bod pobl ifanc yn cael profiad llawer mwy cadarnhaol o gael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau digidol. Barnwyd bod grwpiau eraill yn cael profiad niwtral ar y cyfan.

*'Pobl anabl / yr henoed / pobl ifanc – maen nhw i gyd yn cael problemau mynediad gyda chamfeydd neu gyrraedd llwybr yr arfordir neu gefn gwlad,'* preswylydd Ceredigion.

Barnwyd bod pobl ifanc yn cael profiad llawer gwaeth o **hamdden a mynediad i'r arfordir a chefn gwlad**. Barnwyd bod pobl hŷn neu'r rhai sy'n feichiog neu sydd newydd roi genedigaeth ychydig yn waeth na'r boblogaeth yn gyffredinol. Barnwyd bod yr holl grwpiau eraill yn cael profiad niwtral.

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *'Ydy Cymru'n Decach 2018?' – Prif Gasgliadau***

- Mae pobl anabl yn wynebu prinder tai hygyrch ac addasadwy ac oedi hir wrth wneud eu cartrefi yn hygyrch.
- Mae trafnidiaeth a seilwaith digidol gwael mewn ardaloedd gwledig yn effeithio ar allu pobl i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd, yn enwedig aelwydydd heb geir, pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig a phobl anabl.

**Beth ydym yn dymuno ei gyflawni?**

- Rydym am ddarparu gofal a gwasanaethau cymorth ar gyfer y rhai mwyaf mewn angen. Ail-alluogi mwy o oedolion i fyw bywydau annibynnol da am gyfnod hwy.
- Rydym am nodi anghenion gwasanaeth grwpiau penodol. Rydym am nodi a dileu rhwystrau i gael mynediad i wasanaethau.

**Sut byddwn yn gwneud hyn?**

- Byddwn yn hwyluso mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth trwy Borth y Gymuned, gan gynnwys Dewis a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Byddwn hefyd yn darparu sesiynau hygyrch ar gyfer technoleg ac ymwybyddiaeth o ddeall dementia yn y gymuned.
- Byddwn yn darparu cymorth wedi'i dargedu megis y prosiectau "Cynllun Cyfeirio" ac "Ymuno" er mwyn i blant ag anghenion ychwanegol allu mynychu gweithgareddau prif ffrwd.
- Byddwn yn rhoi cyfle i bobl ag anawsterau dysgu ddatblygu amrywiaeth o sgiliau bywyd sy'n ateb eu hanghenion (Cyfathrebu Cyflawn, Creative Lifestyle Solutions, Llond Bol a Chanolfan Cymorth Cymunedol).
- Byddwn yn datblygu manyleb a thendr i'r gwasanaeth eiriolaeth newydd ar gyfer anableddau dysgu, iechyd meddwl a phobl hŷn.

- Byddwn yn darparu amrywiaeth o ddosbarthiadau ymyrraeth iechyd ym mhob ardal o'r sir, gan gynnwys cyflyrau cronig cymhleth ar gyfer clefydau'r galon, iechyd meddwl, rheoli poen, canser, ac atal cwympo, gan gynnwys y rhaglen hyfforddiant sadrwydd osgo o dan y Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.
- Prosiect Cylch Caron – byddwn yn sefydlu gofal yn y gymuned er mwyn ateb anghenion iechyd a thai sy'n addas i'r diben.
- Byddwn yn datblygu Cofrestr Tai Hygyrch ac yn gweithio ar sicrhau bod cyngor a gwasanaethau Opsiynau Tai yn hygyrch.
- Byddwn yn ystyried darparu mynediad i'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd sydd â phlant ifanc fel ran o unrhyw waith cynnal a chadw neu wella a wneir.
- Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella troetffyrdd a cherbytffyrdd (h.y. cyrbiau is), gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus.
- Byddwn yn parhau i weithredu'r ymgyrch Cymhennu Ceredigion i godi ymwybyddiaeth a lleihau nifer y rhwystrau ar droetffyrdd yn ein trefi megis byrddau hysbysebu ffrâm A.
- Byddwn yn cynnal archwiliadau hygyrchedd i sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor
- Rydym wedi ennill safon hygyrchedd AA ar gyfer ein gwefan a byddwn yn gweithio tuag at ennill safon AAA, gan gynnwys darparu bar offer darllenadwyedd.
- Byddwn yn parhau i reoli llwybr yr arfordir i sicrhau bod y llwybr yn bodloni disgwyliadau ymwelwyr, gan gynnwys parhau i ddilyn egwyddorion 'Mynediad Lleiaf Rhwystrol' lle y bo'n bosibl.
- Byddwn yn rhoi sylw i fynediad cyfartal i fannau chwarae gan gefnogi'r cynllun gweithredu cyfleoedd chwarae digonol.
- Byddwn yn sicrhau bod ein polisi caffael a manyleb contract yn cynnwys Cydraddoldeb a'r Gymraeg fel gwybodaeth safonol.
- Byddwn yn parhau i helpu clybiau chwaraeon cymunedol i ennill Gwobr Anabledd Insport.
- Byddwn yn parhau â thaith ddatblygu Insport Ceredigion Actif i sicrhau newid diwylliannol mewn agwedd, ymagwedd a darparu gwasanaethau hamdden, gweithgareddau corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a chyfleoedd ehangach ar gyfer pobl anabl.

**<u>Sut byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo?</u>**

- Byddwn yn adrodd ar gynnydd wrth gyflenwi ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n cynllun gweithredu bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Nifer y bobl a atgyfeirir at wasanaethau a chyngor ar gyfer Gofal Cymdeithasol.
- Cynyddu lefelau bodlonrwydd pobl sy'n gwneud cais am dai hygyrch ac sy'n cysylltu â'r Tîm Opsiynau Tai am wybodaeth, cyngor a chymorth.
- Cadw nifer y llwybrau bysiau a gynhelir.
- Nifer y gwelliannau i droetffyrdd a cherbytffyrdd sy'n rhoi sylw i faterion hygyrchedd.

- Nifer y busnesau y cysylltir â nhw i godi ymwybyddiaeth o rwystrau ar droetffyrdd.
- Nifer yr adolygiadau hygyrchedd a gwblheir a gwelliannau a argymhellir sy'n cael sylw.
- Nifer y defnyddwyr mynediad cadeiriau olwyn a gofnodwyd sy'n defnyddio Llwybr Arfordir Ceredigion.
- Gostyngiad yn nifer y cwynion ynghylch diffyg hygyrchedd gwasanaethau a reolir gan y Cyngor.
- Nifer y clybiau chwaraeon sy'n ennill safon Anabledd Insport.
- Byddwn yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Ceredigion Actif Cyngor Sir Ceredigion gan ennill safon aur Insport. Byddwn yn cynhyrchu tystiolaeth trwy nifer o ddulliau (gan gynnwys panel) ac yn gosod meini prawf lle mae tystiolaeth yn cael ei darparu ar ddatblygu diwylliant cynhwysol.

**Canlyniadau Disgwyliedig**

- Mae defnyddwyr gwasanaeth agored i niwed yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo, eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod eu hanghenion unigol yn cael eu bodloni.
- Cynnydd yn lefel bodlonrwydd dinasyddion gyda gwasanaethau'r Cyngor er mwyn i bawb yng Ngheredigion allu manteisio ar wasanaethau a chynnal cysylltiadau cymunedol.

## Amcan Cydraddoldeb 5: Addysg Deg a Chynhwysol

**Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.**

### Arolwg Cydraddoldeb Canolbarth a Gorllewin Cymru 2019

*'Cyn i mi gael y diagnosis roedd gwersi yn anodd ond pan gefais i gymorth roedd pethau ychydig bach yn well,'* preswylydd Ceredigion.

Y pum grŵp uchaf yn yr arolwg yr ystyrir eu bod yn cael profiadau gwaeth o **addysg** na'r boblogaeth gyfan yw –

1. Pobl Anabl
2. Pobl Drawsrywiol
3. Menywod sydd newydd roi genedigaeth
4. Pobl Hŷn
5. Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
6. Pobl Lesbiaidd Hoyw a Deurywiol

Barnwyd mai pobl anabl a thrawsrywiol sy'n cael y profiadau gwaethaf o addysg. Barnwyd bod pobl sy'n feichiog neu sydd newydd roi genedlaethol, pobl hŷn, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol i gyd yn cael profiadau negyddol o addysg. Barnwyd bod pobl anabl a siaradwyr Cymraeg yn cael y profiadau gorau o addysg. Barnwyd bod pob grŵp arall yn cael profiad niwtral o addysg yn gyffredinol.

### Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *'Ydy Cymru'n Decach 2018?' – Prif Gasgliadau*

- Ar lefel TGAU mae bylchau yn parhau i ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf.
- Mae menywod ifanc, merched, plant lesbiaidd, hoyw a thrawsrywiol a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwy tebygol o fod mewn perygl o brofi bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth.
- Mae'r nifer sy'n dilyn cwrs addysg uwch wedi cynyddu, ond mae pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig yn profi bylchau mewn cyrhaeddiad.
- Mae gan blant ag anghenion dysgu ychwanegol, plant gwyn a phlant o ethnigrwydd cymysg gyfraddau gwahardd uwch na'r cyfartaledd.

### Beth ydym yn dymuno ei gyflawni?

- Rydym am sicrhau darpariaeth ar gyfer y dysgwyr mwyaf agored i newid, er enghraifft Canolfannau Adnoddau Anghenion Addysgol Arbennig a'r Uned Cyfeirio Disgyblion
- Ymyraethau cynnar gan gynnwys gwaith manwl i olrhain grwpiau o ddysgwyr;

- Rydym am sicrhau bod pob ysgol yn adolygu ac yn diweddaru eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.
- Rydym am adeiladu a chynnal cymunedau ysgol teg a chynhwysol a mynd i'r afael â bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth.

**Sut byddwn yn gwneud hyn?**

- Byddwn yn helpu ysgolion i sicrhau eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.
- Byddwn yn helpu ysgolion i fynd i'r afael â bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth a gweithredu Pecyn Cymorth a Chanllawiau Gwrth-fwlio arfaethedig Llywodraeth Cymru pan gânt eu lansio.
- Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol trwy sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol.
- Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau'r bylchau a nodwyd mewn cyrhaeddiad.
- Byddwn yn helpu dysgwyr o leiafrifoedd ethnig i gael mynediad i'r cwricwlwm er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial ac yn gwella eu cyrhaeddiad.
- Byddwn yn datblygu ymyraethau wedi'u targedu i blant sy'n cael prydau ysgol am ddim ac yn cau unrhyw fylchau mewn cyrhaeddiad.
- Byddwn yn gwella adeiladau ysgol yn ôl yr angen ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol.
- Byddwn yn sicrhau bod pob disgybl yn elwa o ddatblygu sgiliau dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- NEET (nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) – byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd a'r darpariaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed a gefnogir gan gwricwlwm amgen.
- Byddwn yn helpu pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol a chydnabod buddion bod ar-lein.
- Byddwn yn cynnig cyrsiau 'Chwarae Gyda'n Gilydd' (Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd) i ddisgyblion ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o namau a sut i gynnwys ffrindiau mewn gweithgareddau corfforol cynhwysol.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo?**

- Mae pob ysgol wedi rhoi ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith.
- Mae bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth yn cael sylw, mae dioddefwyr yn cael cymorth ac mae ymarfer adferol yn cael ei arddel wrth ymdrin â'r rhai sy'n bwlio.
- Byddwn yn gwella cyflawniad plant ag anghenion addysgol arbennig ym mhob cyfnod allweddol.
- Byddwn yn gwella cyflawniad yr holl blant sy'n derbyn gofal ym mhob cyfnod allweddol.
- Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yn CA3 a Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn CA4.
- Nifer y ceisiadau ar gyfer addasiadau i ysgolion a'r nifer a gwblhawyd.
- Byddwn yn lleihau nifer yr ymadawyr ysgol CA4 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

- Nifer y bobl anabl a phobl hŷn sy'n cael mynediad i hyfforddiant ar gyfer llythrennedd digidol.
- Nifer y cyrsiau Chwarae Gyda'n Gilydd Hyfforddiant Codi Ymwybyddiaeth Anabledd a ddarperir a nifer y disgyblion ysgol sy'n derbyn yr hyfforddant.

**Canlyniadau Disgwyliedig**

Safon uchel o addysg sy'n gynhwysol i bawb

## 6. Ein Gwaith Cydraddoldeb yng Ngheredigion

**Datganiad Cydraddoldeb**

*'Cydraddoldeb yw sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu at wneud Ceredigion yn lle gwell i fyw, gweithio a mwynhau. Rydym yn ymrwymedig i drin pob dinesydd â pharch, a darparu gwasanaethau a chynnig cyfleoedd cyflogaeth sy'n ymateb i anghenion amrywiol pobl'.*

Mae'r datganiad cydraddoldeb wedi'i gorffori fel thema drawsbynciol yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2017-22.

**Sut byddwn yn rhoi'r Amcanion Cydraddoldeb ar waith.**

**Cynllun Gweithredu** – mae'r cynllun yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni Amcanion Cydraddoldeb 2020-24. Mae pob amcan yn cynnwys nifer o gamau gweithredu gyda swyddogion arweiniol enwebedig sy'n gyfrifol am weithredu, monitro ac adrodd ar gynnydd. Gweler Atodiad 1 am gopi o'r cynllun gweithredu.

Mae'r **Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau** yn gynllun gweithredu ar wahân ar gyflog yn ôl rhyw, mae'n amlinellu ein hymagwedd at recriwtio, cadw a datblygu yn ogystal â chyhoeddi gwahaniaethau rhwng cyflogau. Rydym hefyd yn cynhyrchu **Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu**. I weld y copïau diweddaraf o'r adroddiadau cliciwch http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/cynllun-strategol-cydraddoldeb-amcanion/

Mae swyddogion arweiniol ar draws ein meysydd gwahaniaeth hefyd yn aelodau o'n **Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol**. Mae'r grŵp yn goruchwylio'r gwaith o weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r cynllun gweithredu ac yn gyfrifol am brif ffrydio cydraddoldeb ar draws Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol yn cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor. Mae'r Arweinydd yn cael ei enwebu fel yr **Hyrwyddwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg**.

**Ymgysylltwyd** wrth lunio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a hefyd ein Hamcanion Cydraddoldeb. I gychwyn gwnaethpwyd hynny trwy gyfrwng arolwg a digwyddiadau ymgysylltu er mwyn llywio'r gwaith o lunio cynllun drafft. Yna ymgynghorwyd ar y cynllun drafft. Ymgysylltwyd hefyd wrth wneud penderfyniadau a chyflenwi gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac mae wedi'i gorffori yn ein Hasesiadau Effaith Integredig. Gweithiwn hefyd ag amrywiaeth o grwpiau a rhwydweithiau cymunedol, er enghraifft Fforwm Anabledd Ceredigion, y Cyngor Ieuenctid a Rhwydwaith y Gynghrair Gofalwyr. Mae ein polisi ac adnoddau ymgysylltu yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Mae'r **Offer Asesiad Effaith Integredig** yn cyfuno egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (Gofynion Safonau'r Gymraeg) a Rheoli Risg er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol. Mae'r offer yn helpu swyddogion ac aelodau etholedig i asesu'r effaith a gaiff cynnig ar y nodau llesiant, dadansoddi'r cynnig er mwyn penderfynu a yw'n debygol o wahaniaethu neu anfanteisio pobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn penderfyniadau polisi.

Bwriedir i'r offer Asesiad Effaith Integredig asesu effaith cynigion a helpu'r awdurdod lleol i –

- Ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wir effaith polisïau ac ymarferion.
- Meddwl ble y gallem leihau'r effeithiau negyddol.
- Nodi'r cyfleoedd a gollwyd a manteisio ar yr effeithiau cadarnhaol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi 'sylw dyledus' (rhoi pwys priodol) i ganlyniadau'r asesiad. Cyhoeddir ein Hasesiadau Effaith Integredig ar ein gwefan o fewn cofnodion perthnasol pwyllgorau'r Cyngor.

### Gwybodaeth

Ceisiwn gasglu data a gwybodaeth meintiol ac ansoddol effeithiol am gydraddoldeb er mwyn llywio'r penderfyniadau a wnawn a chyflenwi gwasanaethau. Mae adnodda data cydraddoldeb gennym i staff ar ein gwefan fewnol. Mae ein Hoffer Asesiad Effaith Integredig yn casglu data cysylltiedig â chydraddoldeb yn benodol ar gyfer pob asesiad. Rydym hefyd yn defnyddio cwestiwn cydraddoldeb ac amrywiaeth safonol a osodwyd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a monitro amrywiaeth ein staff.

### Caffael

Mae'r tîm caffael yn cynnwys y datganiad canlynol yn yr holl wasanaethau a gomisiynir neu dan gontract:

*"Mae Cyngor Sir Ceredigion o'r farn ei bod hi'n hanfodol bod pob sefydliad sydd am ddarparu cynnyrch neu wasanaeth ar ei ran yn gallu dangos bod pob cam ymarferol a rhesymol yn cael ei gymryd i ganiatáu mynediad cyfartal a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth, cyflenwi gwasanaethau a hyfforddiant i bawb. Bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â holl ofynion perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg 2011, ac unrhyw ganllawiau neu Godau Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu Gomisiynydd y Gymraeg. Felly mae'n ofynnol i'r cyflenwr ddarparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau mewn modd sy'n gyson â Chynllun Cydraddoldeb Strategol a Safonau'r Gymraeg y Cyngor. Felly, ni fydd y darparwr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail hil, crefydd neu gred, ethnigrwydd, rhyw, oedran, anabledd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd / mamolaeth a'r defnydd o'r Gymraeg. Tra bydd yn*

*ymgymryd â'i weithgareddau bydd y darparwr yn rhoi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid, yn hyrwyddo cyfle cyfartal, ac yn meithrin perthnasoedd da."*

**Hyrwyddo gwybodaeth, ymwybyddiaeth a hyfforddiant**

Mae modiwl e-ddysgu cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael i bob aelod o staff. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i reolwyr a hyfforddiant penodol megis hyfforddiant Hawdd ei Ddeall.

Mae adnoddau a gwybodaeth ar gael ar ein gwefan fewnol a hefyd ar ein gwefan allanol (cliciwch http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/cynllun-strategol-cydraddoldeb-amcanion/).

Mae calendr ymgyrchoedd gweithredol gennym a chymerwn ran mewn amrywiaeth o ymgyrchoedd cenedlaethol megis Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb.

**Fformatau Hygyrch**

Mae ein gwefan yn hollol gydnaws â safon hygyrchedd AA ac rydym yn rhannol gydnaws â safon hygyrchedd AAA. Cynigiwn fformatau amgen neu hygyrch ar gyfer dogfennau ar gais, er enghraifft print mawr neu hawdd ei ddeall.

Mae cytundeb lefel gwasanaeth gennym â WITS, sef Gwasanaeth Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Cymru pan fydd angen cymorth gydag ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg.

**Monitro, Adolygu a Chyhoeddi Gwybodaeth**

Mae'r cynllun gweithredu yn enwi'r unigolion allweddol sy'n gyfrifol am roi camau gweithredu penodol ar waith a monitro cynnydd. Mae'r Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol yn goruchwylio'r gwaith o roi'r cynllun cydraddoldeb strategol a'r cynllun gweithredu ar waith. Mae Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ar ein gwefan; i weld adroddiadau blaenorol cliciwch http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/cynllun-strategol-cydraddoldeb-amcanion/. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cael eu craffu gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a'u cymeradwyo gan y Cabinet.

Rydym wedi cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth a dogfennau cydraddoldeb ar ein gwefan gan gynnwys –

- Gwybodaeth am y Ddeddf Cydraddoldeb
- Tudalen Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb
- Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiadau ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- Adroddiadau Cydraddoldeb yn y Gweithlu

I fynd i'n dudalen cydraddoldeb ac amrywiaeth cliciwch
http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/cynllun-strategol-cydraddoldeb-amcanion/

# Atodiadau

| **Atodiad 1 – Tabl 1: Camau gweithredu sy'n cefnogi'r Nodweddion Gwarchodedig a'r Amcanion Cydraddoldeb** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol | Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn | Ymgysylltu a Chyfranogi | Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau | Addysg Deg a Chynhwysol |
| Oedran | 1.1, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.4, 2.6 | 3.1, 3.2, 3.3, 3.5, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10, 3.11 | 4.1, 4.2, 4.4, 4.5, 4.6, 4.8, 4.13, 4.14, 4.15, 4.17 | 5.1, 5.2, 5.3, 5.4, 5.5, 5.6, 5.7, 5.8, 5.9, 5.10, 5.12 |
| Ailbennu rhywedd | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.4, 2.6 | 3.1, 3.2, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10, 3.11 | 4.1, 4.6, 4.15, 4.17 | 5.2 |
| Rhyw | 1.1, 1.2, 1.3, 1.6, 1.7, 1.8 | 2.1, 2.3, 2.4, 2.6 | 3.1, 3.2, 3.4, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10, 3.11 | 4.1, 4.6, 4.15, 4.17 | 5.8 |
| Hil | 1.2, 1.3, 1.7, 1.8 | 2.1, 2.2, 2.4, 2.5, 2.6 | 3.1, 3.2, 3.4, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10 | 4.1, 4.6, 4.15, 4.17 | 5.2, 5.5 |
| Anabledd | 1.2, 1.3, 1.4, 1.7, 1.8 | 2.1, 2.2, 2.4, 2.6 | 3.1, 3.2, 3.4, 3.6, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10, 3.11, 3.12 | 4.1, 4.3, 4.4, 4.6, 4.7, 4.8, 4.9, 4.10, 4.11, 4.12, 4.13, 4.14, 4.15, 4.16, 4.17 | 5.2, 5.5, 5.10, 5.12 |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | 1.1, 1.2, 1.3, 1.5, 1.6 | 2.1, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10, 3.11 | 4.1, 4.6, 4.8, 4.10, 4.13, 4.15, 4.17 | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.4, 2.6 | 3.1, 3.2, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10, 3.11 | 4.1, 4.6, 4.15, 4.17 | 5.2 |
| Crefydd neu gred | 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.4, 2.6 | 3.1, 3.2, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10, 3.11 | 4.1, 4.6, 4.15, 4.17 | 5.2 |
| Priodas a phartneriaeth sifil | 1.2, 1.3 | 2.1, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10, 3.11 | 4.1, 4.6, 4.15 | |

# Atodiad: 2 Cynllun Gweithredu

| Amcanion | Camau Gweithredu | Gwasanaeth | Canlyniadau | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **1. Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol.**<br><br>**Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff sydd wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion cysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.** | **1.1.** Byddwn yn monitro ac yn cau'r gwahaniaeth posibl yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Bwlch Cyflog yn y Gweithlu blynyddol. | Geraint Edwards<br>Pobl a Threfniadaeth | Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. | 2020-24 |
| | **1.2.** Byddwn yn parhau i gasglu sgiliau cydraddoldeb a Chymraeg y gweithlu gan staff newydd a data gwirfoddol gan staff presennol. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu blynyddol. | Geraint Edwards<br>Pobl a Threfniadaeth | Nifer gynyddol o'r staff yn datgelu data am gydraddoldeb a'r Gymraeg. | 2020-24 |
| | **1.3.** Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus trwy hyfforddiant. | Debbie Ayriss<br>Pobl a Threfniadaeth | Nifer gynyddol o'r staff yn cwblhau'r e-ddysgu gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br><br>Nifer gynyddol o'r rheolwyr yn cwblhau'r hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br><br>Nifer gynyddol o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth LGBT. | Parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **1.4.** Byddwn yn parhau i hyrwyddo a gweithredu'r cynllun Dau Dic am Anabledd (sy'n croesawu ceisiadau gan bobl anabl ac yn ymrwymo i wneud addasiadau yn y gweithle). | Geraint Edwards<br>Pobl a Threfniadaeth | Nifer gynyddol o apwyntiadau lle cofnodir bod anabledd gan y person. | Parhau |
| | **1.5.** Byddwn yn cefnogi gweithwyr sy'n feichiog neu sydd newydd roi genedigaeth trwy fabwysiadu'r chwe maes gweithredu o dan yr adroddiad *'Gwahaniaethu yn erbyn Beichiogrwydd a Mamolaeth yn y Gweithlu: Argymhellion ar gyfer Newid.'* | Geraint Edwards<br>Pobl a Threfniadaeth | Mabwysiadu chwe maes gweithredu. | Parhau |
| | **1.6.** Byddwn yn cynnig, lle y bo'n briodol, gweithio'n hyblyg a rhan-amser i gefnogi rhieni a gofalwyr. Byddwn yn diwygio ein polisïau ar weithio'n hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. | Geraint Edwards<br>Pobl a Threfniadaeth | Polisïau diwygiedig ar weithio hyblyg ac ystwyth wedi'u rhoi ar waith. | Parhau |
| | **1.7.** Byddwn yn gweithio tuag at leihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau a diffyg cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau, gan gynnwys gweithio gyda'n contractwyr i gynnwys buddion cymunedol fel elfen graidd ym mhob contract caffael perthnasol y Cyngor. | Michael Pritchard<br>Dysgu Gydol Oes a Diwylliant<br>/ George Ryley<br>Cyllid a Chaffael | Lleihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau.<br>Cynyddu prentisiaethau 'BME' ac anabl. | Parhau |
| | **1.8.** Byddwn yn parhau i weithredu ein Polisi Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i ddilyn Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol a Thryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi, er enghraifft, gwarchod yn erbyn contractau cyflogaeth ansicr a sicrhau hawliau gweithwyr. | George Ryley<br>Cyllid a Chaffael | Darparu nifer gynyddol o sesiynau Caethwasiaeth Fodern, nifer gynyddol o staff yn mynychu.<br><br>Darparu nifer gynyddol o sesiynau Masnachu Pobl a Phlant. | Parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2. Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn.**<br><br>**Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.** | **2.1.** Byddwn yn gweithio gyda'r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gefnogi Ceredigion gyda chymunedau cydlynus. | Kay Howells<br>Cydlyniant Cymunedol | Datblygu fframwaith Cydlyniant Cymunedol a gweithredu'r amcanion. | Parhau |
| | **2.2.** Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chyfeirio dioddefwyr posibl at wasanaethau adrodd a chefnogi. | Naomi McDonagh<br>Polisi a Pherfformiad a<br>Kay Howells<br>Cydlyniant Cymunedol | Darparu nifer gynyddol o sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb.<br><br>Nifer gynyddol o'r staff yn mynychu. | Parhau |
| | **2.3.** Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith i gynyddu adroddiadau am gam-drin domestig i'r gwasanaeth Goleudy (Cymorth i Ddioddefwyr), | Carys James / Donna Pritchard<br>Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Chomisiynu<br>Natalie Hancock<br>Cydlynydd Rhanbarthol VAWDASV | Nifer gynyddol o'r staff yn cwblhau e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod.<br><br>Cwblhau nifer gynyddol o sesiynau Gofyn a Gweithredu. | Adrodd yn flynyddol |
| | **2.4.** Byddwn yn monitro ac yn ymateb i densiynau cymunedol sy'n gysylltiedig â phroses Brexit. | Steffan Gruffydd<br>Polisi a Pherfformiad a<br>Kay Howells<br>Cydlyniant Cymunedol | Nifer gynyddol o ymyriadau ac achosion o leddfu tensiynau. | Parhau |
| | **2.5.** Byddwn yn cyfeirio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yng Ngheredigion at Gynllun Preswylio'n Sefydlog i | Kay Howells | Nifer gynyddol o ddinasyddion yr UE yng Ngheredigion yn | Parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd y Swyddfa Gartref a darparu'r lefel briodol o gymorth gan yr awdurdod lleol. | Cydlyniant Cymunedol<br>Arwyn Morris<br>Cyswllt Cwsmeriaid | gwneud cais i'r cynllun. | |
| | **2.6.** Byddwn yn parhau i weithredu'r ymgyrch ymwybyddiaeth cyhoeddus blynyddol yn y cyfryngau. Gallai enghreifftiau gynnwys Diwrnod Rhyngwladol Menywod, Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, a Diwrnod Coffau'r Holocost. | Tîm Cyfathrebu / Kay Howells | Ymgymryd â nifer gynyddol o ymgyrchoedd. | Parhau |
| | | | | |
| **3. Ymgysylltu a Chyfranogi.**<br><br>**Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.** | **3.1.** Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion, gan gynnwys pobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig ac yn cysylltu â grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. | Michael Smith<br>Polisi a Pherfformiad, a'i weithredu gan yr holl feysydd gwasanaeth | Bod yr ymgysylltu a wneir yn un ystyrlon. Mae pobl yn cyfrannu ac yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau – Adroddiad Blynyddol ynghylch Ymgysylltu. | Parhau |
| | **3.2.** Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu ein Polisi Ymgysylltu. | Michael Smith<br>Polisi a Pherfformiad | Cyhoeddi a gweithredu ein Polisi Ymgysylltu. Cofnodi'r cynnydd a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Ymgysylltu. | Cyhoeddi'r Polisi Ymgysylltu erbyn haf 2020 |
| | **3.3.** Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ac yn rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ein proses gwneud penderfyniadau. | Nia Jones<br>Gwasanaethau Democrataidd / Gwion Bowen<br>Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Cyhoeddi targedau penodol yn Strategaeth Cyfranogiad 2018-21. Cofnodi cynnydd yn yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Strategaeth | Parhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.<br>Rhaglen e-ddysgu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn mynd rhagddi, disgwylir ei lansio i'r staff yn 2020. | |
| **3.4.** Byddwn yn cefnogi'r rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol yn arbennig i fenywod, pobl anabl neu bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. | Glynis Davies<br>Gwasanaethau Etholiadol | Nifer gynyddol o ferched, pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli. | Parhau |
| **3.5.** Byddwn yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc 16 ac 17 oed os yw'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru. | Glynis Davies<br>Gwasanaethau Etholiadol / Gwion Bowen<br>Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth mewn ffordd benodol iawn gan ddefnyddio Cyngor Ieuenctid Ceredigion, chweched dosbarth Ysgolion Uwchradd, sefydliadau Addysg Bellach, Gwasanaethau Cymorth i Ieuenctid, fforymau plant a phobl ifanc a chyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth Ieuenctid. | Staff pan fydd angen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **3.6.** Byddwn yn parhau i gefnogi Fforwm Anabledd Ceredigion. | Michael Smith<br>Polisi a Pherfformiad | 4 cyfarfod agored y flwyddyn a 4 cyfarfod gyda Chyngor Sir Ceredigion. Llais pobl anabl i'w glywed ac yn ddylanwadol. | Parhau |
| | **3.7.** Byddwn yn cynnal y dudalen cydraddoldeb ar wefan y Cyngor i gyfeirio at wybodaeth berthnasol a chyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adroddiadau. | Michael Smith<br>Polisi a Pherfformiad | Tudalen gyfredol ar Gydraddoldeb ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. | Parhau |
| | **3.8.** Byddwn yn monitro cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad monitro blynyddol. | Michael Smith<br>Polisi a Pherfformiad a phob gwasanaeth i'w weithredu | Nifer y camau gweithredu Glas a Gwyrdd o gymharu â'r camau i gyd. | Mis Mawrth bob blwyddyn |
| | **3.9.** Byddwn yn adolygu'r broses Asesu Effaith Integredig. | Michael Smith<br>Polisi a Pherfformiad | Proses ddiwygiedig Asesu Effaith Integredig | Gwanwyn 2020 |
| | **3.10.** Byddwn yn monitro ac yn cynghori ar Asesiadau Effaith Integredig. | Michael Smith<br>Polisi a Pherfformiad | Nifer yr Asesiadau Effaith Integredig sydd wedi helpu i beri newidiadau o gymharu â'r Asesiadau i gyd. | Parhau |
| | **3.11.** Rhoi cymorth ac arweiniad i holl wasanaethau'r cyngor i sicrhau eu bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg ac yn cynyddu faint o wasanaethau sydd ar gael drwy'r Gymraeg a safon y gwasanaethau hyn. | Carys Morgan<br>Gwasanaethau Democrataidd | Gwasanaethau Cymraeg ar gael yn weithredol i siaradwyr Cymraeg. | Parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **3.12** Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion Siarter Anableddau Dysgu y Dream Team | Pob un | Deilliannau gwell i bobl ag anableddau dysgu. | Parhau |
| | | | | |
| **4. Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau.**<br><br>**Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.** | **4.1.** Byddwn yn hwyluso mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth trwy Borth y Gymuned, gan gynnwys Dewis a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Byddwn hefyd yn darparu sesiynau hygyrch ar gyfer technoleg ac ymwybyddiaeth o ddeall dementia yn y gymuned. | Cyra Shimell / Porth y Gymuned | Nifer gynyddol o bobl yn cael cymorth.<br>Darparu nifer gynyddol o sesiynau deall dementia. | Parhau |
| | **4.2.** Byddwn yn darparu cymorth wedi'i dargedu megis y prosiectau "Cynllun Cyfeirio" ac "Ymuno" er mwyn i blant ag anghenion ychwanegol allu mynychu gweithgareddau prif ffrwd. | Heulwen Davies ac Elen James<br>Porth Cymorth Cynnar / Cathryn Morgan<br>Polisi a Pherfformiad | Cynnal y gyfradd o 50% ar gyfer dychwelyd holiaduron a chynnal sgôr gwasanaeth o dda neu uwch ar 84%. | Parhau |
| | **4.3.** Byddwn yn rhoi cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu datblygu amrywiaeth o sgiliau bywyd sy'n ateb eu hanghenion (Cyfathrebu Cyflawn, Creative Lifestyle Solutions, Llond Bol a Chanolfan Cymorth Cymunedol). | Carys James a Nerys Lewis<br>Porth Cynnar a Gillian Evans<br>Ysgolion | Nifer gynyddol o bobl yn defnyddio gwasanaethau eirioli. | Parhau |
| | **4.4.** Byddwn yn datblygu manyleb a thendr ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth newydd ar gyfer anableddau dysgu, iechyd meddwl a phobl hŷn. | Anna Henchie<br>Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Chomisiynu | Nifer gynyddol o bobl yn defnyddio gwasanaethau eirioli. | Parhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4.5.** Byddwn yn darparu amrywiaeth ddwyieithog o ddosbarthiadau ymyrraeth iechyd ym mhob ardal o'r sir, gan gynnwys cyflyrau cronig cymhleth ar gyfer clefydau'r galon, iechyd meddwl, rheoli poen, canser, atal cwymp, gan gynnwys y rhaglen hyfforddiant sadrwydd osgo o dan y Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol. | Steve Jones<br>Gwasanaethau Ffordd o Fyw | Cynnal dros 200 o ddosbarthiadau Ymyrraeth Iechyd bob mis, oll o fewn 20 munud o daith i bob cleient.<br>36,000 o Unedau Gweithgarwch y flwyddyn.<br>Rhaglenni wedi'u creu o amgylch y cleient er mwyn meithrin arferion ymarfer corff a llesiant meddwl fydd yn newid eu bywydau. | Parhau |
| **4.6.** Prosiect Cylch Caron – byddwn yn sefydlu gofal yn y gymuned er mwyn ateb anghenion iechyd a thai sy'n addas i'r diben. | Nerys Lewis a Sue Darnbrook<br>Gwasanaeth Oedolion | Nodi faint o wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen fel rhan o Brosiect Cylch Caron. | Parhau |
| **4.7.** Byddwn yn datblygu Cofrestr Tai Hygyrch ac yn gweithio ar sicrhau bod cyngor a gwasanaethau Opsiynau Tai yn hygyrch. | Cerys Purches-Phillips<br>Gwasanaethau Ffordd o Fyw | Cynnydd ym modlondeb pobl sy'n ymgeisio am dai hygyrch. | Parhau |
| **4.8.** Byddwn yn ystyried darparu mynediad i'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd sydd â phlant ifanc fel ran o unrhyw waith cynnal a chadw neu wella a wneir. | Shan Witts<br>Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | Mae gwaith yn mynd rhagddo ar wella cysgodfannau ac arosfannau bysiau ar hyd llwybr y T2/T5.<br>Rydym yn parhau i gefnogi a hwyluso | Parhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | menter Llywodraeth Cymru o adael i bobl deithio am ddim ar benwythnosau ar rwydwaith TrawsCymru.<br>Mae’r ddau ymyriad yn fodd o wneud trafnidiaeth yn fwy hygyrch drwy wella seilwaith a’r gwasanaeth. | |
| **4.9.** Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella troetffyrdd a cherbytffyrdd (h.y. cyrbiau is), gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus. | Rhodri Llwyd<br>Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | Nifer gynyddol o welliannau i droetffyrdd i fynd i’r afael ag anawsterau mynediad. | Parhau |
| **4.10.** Byddwn yn parhau i weithredu'r ymgyrch Cymhennu Ceredigion i godi ymwybyddiaeth a lleihau nifer y rhwystrau ar droetffyrdd yn ein trefi megis byrddau hysbysebu ffrâm A a biniau olwyn. | Gerwyn Jones<br>Gwasanaethau a phartneriaid Priffyrdd ac Amgylcheddol | Mae cyhoeddiadau Cymhennu Ceredigion yn cael eu rhannu / eu cyhoeddi ar lwyfannau’r Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol a hynny’n rheolaidd, gan godi ymwybyddiaeth yn barhaus. | Parhau |
| **4.11.** Byddwn yn cynnal archwiliadau hygyrchedd i sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor | Lyndon Griffiths<br>Yr Economi ac Adfywio | Nifer gynyddol o adolygiadau hygyrch wedi’u gwneud a gwelliannau a | Parhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | argymhellir wedi cael sylw. | |
| **4.12.** Rydym wedi ennill safon hygyrchedd AA ar gyfer ein gwefan a byddwn yn gweithio tuag at ennill safon AAA, gan gynnwys darparu bar offer darllenadwyedd. | Arwyn Morris<br>Cyswllt Cwsmeriaid | Bodlondeb y cwsmeriaid yn uwch. | Parhau |
| **4.13.** Byddwn yn parhau i reoli llwybr yr arfordir i sicrhau bod y llwybr yn bodloni disgwyliadau ymwelwyr, gan gynnwys parhau i ddilyn egwyddorion 'Mynediad Lleiaf Rhwystrol' lle y bo'n bosibl. | Eifion Jones<br>Yr Economi ac Adfywio | Mae egwyddorion 'Mynediad Lleiaf Rhwystrol' wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.<br>Cafwyd £45k o gyllid Cyfalaf y Cyngor i osod pontydd troed newydd yn lle'r hen rai, gan helpu i gydymffurfio â'r lled o 1.2m sydd yn y canllaw "trwy bob dull rhesymol" ynghylch mynediad lleiaf rhwystrol.<br>Nodir y rhwystrau i fynediad yn nhaflenni'r llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo h.y. camfeydd, arwyneb y llwybr, serthder y llwybr, ac ati.<br>Cafwyd grant o £160k oddi wrth | Parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Lywodraeth Cymru i greu bwrdd cerdded i bobl o bob gallu ar hyd afon Teifi yng Nghenarth (prosiect 3 blynedd).<br>Cafwyd grant o £25k i wella arwyneb llwybr troed yn Aberaeron – paratoi deunydd i hyrwyddo'r llwybr pob gallu fel rhan o'r prosiect hwn. | |
| | **4.14.** Byddwn yn rhoi sylw i fynediad cyfartal i fannau chwarae gan gefnogi'r cynllun gweithredu cyfleoedd chwarae digonol. | Cathryn Morgan<br>Polisi a Pherfformiad | Nifer gynyddol o fannau chwarae yn cydymffurfio â'r meini prawf o ran hygyrchedd. | Adroddiad Blynyddol |
| | **4.15.** Byddwn yn sicrhau bod ein polisi caffael a manyleb contract yn cynnwys cydraddoldeb a'r Gymraeg fel gwybodaeth safonol. | George Ryley<br>Cyllid a Chaffael a<br>Carys Morgan<br>Gwasanaethau Democrataidd | Canran y manylebau contract a roddir gyda gofynion am Gydraddoldeb a'r Gymraeg. | Parhau |
| | **4.16.** Byddwn yn parhau i helpu clybiau chwaraeon cymunedol i ennill safon Anabledd Insport. | Steve Jones / Gemma Cutter<br>Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Nifer gynyddol o brosiectau gwirfoddol/ cymunedol i hyfforddi ac addysgu pobl i ddod yn fwy hyderus ac i ddatblygu mwy o | Parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gyfleoedd cynhwysol yn ein cymunedau. | |
| | **4.17.** Byddwn yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Ceredigion Actif gan ennill safon aur gwobr Insport. | Steve Jones / Gemma Cutter<br>Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Parhau â siwrnai a phroses ddysgu'r staff, partneriaid a gwasanaethau, a hynny o statws Rhuban i Aur.<br>Dod yn wasanaeth cynhwysol, llawn gweledigaeth, ar gyfer pob safon. | Parhau |
| | | | | |
| **5. Addysg Deg a Chynhwysol.**<br><br>**Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.** | | | | |
| | **5.1.** Byddwn yn helpu ysgolion i sicrhau eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. | Nia James<br>Ysgolion | Pob ysgol yn hysbysu ac yn cadarnhau bod eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i gwblhau a hynny yn nhymor yr haf, yng nghyfarfod eu corff llywodraethu.<br><br>Ysgolion â Chynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith. | Gwanwyn 2020 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5.2.** Byddwn yn helpu ysgolion i fynd i'r afael â bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth a gweithredu Pecyn Cymorth a Chanllawiau Gwrth-fwlio arfaethedig Llywodraeth Cymru pan gânt eu lansio yng ngwanwyn 2020. | Angharad John / Kizzie Garner Ysgolion | Creu polisi drafft i ysgolion o'r canllawiau gwrth-fwlio newydd. Anfon copi drafft at staff uwch yr adran addysg er mwyn ymgynghori/ cael eu sêl bendith cyn ei gylchredeg i ysgolion. | Dechrau gwanwyn 2020 |
| **5.3.** Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. | Gillian Evans Ysgolion | Pob disgybl ag ADY yn gwneud cynnydd priodol yn ôl eu hanghenion. Profir drwy ddata am gyrhaeddiad plant ag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob cyfnod allweddol. | Parhau |
| **5.4.** Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau'r bylchau a nodwyd mewn cyrhaeddiad. | Catrin Peche Ysgolion | Pob disgybl sy'n derbyn gofal yn gwneud cynnydd priodol yn ôl eu hanghenion. Profir drwy ddata am gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal ym mhob cyfnod allweddol. | Parhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5.5.** Byddwn yn helpu dysgwyr o leiafrifoedd ethnig i gael mynediad i'r cwricwlwm er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial ac yn cynyddu cyrhaeddiad. | Carol Price<br>Ysgolion | Darparu cymorth peripatetig parhaus a/neu ymyriadau ar gyfer ysgolion penodol a gweithredu ar y cyd â rhanddeiliaid yn yr Awdurdod Lleol.<br>• Symudodd 15% o ddisgyblion i fyny lefel o ran eu cynnydd mewn EAL, gydag 1% yn codi 2 lefel neu fwy.<br>• Mae 64% o'r disgyblion ar gôd C-E; o blith y rhain mae 61% yn Gymwys (D) neu'n Rhugl (E) | Parhau |
| **5.6.** Byddwn yn datblygu ymyraethau wedi'u targedu i blant sy'n cael prydau ysgol am ddim. | Vanessa Bowen / Gwion Dafydd<br>Ysgolion | Hyfforddiant penodol ar gyfer ymyriadau e.e. rhifedd, iaith, anghenion dysgu ychwanegol, sgiliau meddwl. Hefyd mae hyfforddiant yn cefnogi'r gwaith o ddefnyddio'r Hafan a phrydau ysgol am | Parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ddim fel rhan o'r Proffil asesu.<br>Mae cynadleddau yn hyrwyddo'r ddealltwriaeth o Fwlio, Llais y Plentyn, iechyd a llesiant, a'r ymyriadau a ddefnyddir. | |
| | **5.7.** Byddwn yn gwella adeiladau ysgol yn ôl yr angen ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol. | Nia James<br>Ysgolion | Derbynnir ceisiadau am gyfalaf o dderbyn cynlluniau hygyrchedd ysgolion sy'n tynnu sylw at y gwaith sydd ei angen.<br><br>Nifer yr addasiadau mewn ysgolion a'r nifer a gwblheir. | Adroddiad Blynyddol |
| | **5.8.** Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | Silyn Roberts<br>Ysgolion | Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith ac yn parhau hyd 2021 pan gyhoeddir CYSCA 2021-2031.<br>Cynllun wedi'i weithredu a chedwir golwg ar y canlyniadau. | 2023 |
| | **5.9.** NEET (nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) - byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd a'r | Michael Pritchard | Ychwanegwyd dau gwrs newydd i | Parhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| darpariaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed a gefnogir gan gwricwlwm amgen.<br><br>NEET – byddwn yn sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu cynnwys fel gofyniad craidd mewn pob contract caffael y Cyngor a bod canran y cyfleoedd Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant a grëir yn cynyddu o'r flwyddyn flaenorol. | Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | ddarpariaeth amgen y cwricwlwm ers Medi 2019. Gwneir cynnydd da, mae gan bob un o gontractau caffael perthnasol Cyngor Sir Ceredigion fuddion cymunedol yn ofyniad craidd. Mesurir y cynnydd pan fydd y data blynyddol o ran NEET ar gael. | Data blynyddol NEET ar gyfer Llywod-raeth Cymru |
| **5.10.** Byddwn yn helpu pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol, a chydnabod buddion bod ar-lein. | Denise Owen<br>Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Nifer gynyddol o gofrestriadau Dysgu Bro dros 50.<br>Nifer gynyddol o bobl dros 50 wedi'u cofrestru ar gyfer dosbarthiadau llythrennedd digidol.<br>Nifer gynyddol o bobl dros 50 wedi'u wedi cofrestru ar gyfer dosbarthiadau llythrennedd digidol ac sydd ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol. | Parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **5.11.** Byddwn yn cynnig cyrsiau 'Chwarae Gyda'n Gilydd' (Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd) i ddisgyblion ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o namau a sut i gynnwys ffrindiau mewn gweithgareddau corfforol cynhwysol. | Steve Jones / Gemma Cutter<br>Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Ar y cyd ag AYP a Chwaraeon Cymru, byddwn yn hyfforddi disgyblion ysgol a gwirfoddolwyr iddynt ddysgu sut i addasu neu i gynnwys eraill mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. | Parhau |